



Cost y Senedd

13 Mawrth 2024

Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 19 Chwefror, pan wnaethoch ofyn:

How much has it cost the Welsh Tax Payer for building the Senedd, then the wages of the 'All personnel' employed with the Senedd and the running costs since March 2006 to December 2023?

Gellir gweld ein hymateb isod.

Darperir yr ateb hwn ar ran Comisiwn y Senedd, sef y corff corfforaethol sy'n gyfrifol am ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau i Senedd Cymru (a elwir hefyd yn Welsh Parliament). Mae'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael ar wefan Comisiwn y Senedd, fel rhan o'n Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon - [Archif Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon \(senedd.cymru\)](#)

Bydd adroddiad blynyddol a chyfrifon y flwyddyn gyfredol yn cael eu cyhoeddi ar y dudalen hon - [Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon \(senedd.cymru\)](#).

Rwyf wedi darparu linc a chyfeirnod tudalen yn y tabl isod.

Linc i'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon	Cyfeirnod tudalen
2022-2023	166
2021-2022	164
2020-2021	164
2019-2020	148
2018-2019	138

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

2017-2018	124
2016-2017	108
2015-2016	98
2014-2015	125
2013-2014	85
2012-2013	97
2011-2012	43
2010-2011	39
2009-2010	37
2008-2009	39

Cyn mis Mai 2007, nid oedd Comisiwn y Senedd yn bodoli ac yn unol â hynny, nid ydym yn cadw gwybodaeth ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol ac eithrio'r rhai a restrir uchod.

Gan fod yr wybodaeth hon eisoes wedi'i chyhoeddi, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Yn gywir

Buddug Saer
Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF